OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 3002 (Cy. 259)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn y Tafod Glas (Cymru) (Diwygio) 2007

Gwnaed - - - -	*18 Hydref 2007*
Yn dod i rym am 4:45p.m.	*18 Hydref 2007*

Mae'r Gorchymyn yn darparu at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**) ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus dehongli'r cyfeiriad at Benderfyniad y Comisiwn 2005/393/EC ar barthau gwarchod a gwyliadwriaeth mewn perthynas â'r tafod glas a chymhwyso amodau i symudiadau o'r parthau hyn neu i'r parthau hyn(**2**) fel cyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan baragraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**3**) ac adrannau 1, 8(1), 17(1) a 35 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**4**) ac a freiniwyd bellach ynddynt(**5**).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn—

(a) yw Gorchymyn y Tafod Glas (Cymru) (Diwygio) 2007;

(b) mae'n gymwys o ran Cymru; ac

(c) daw i rym am 4:45 p.m. 18 Hydref 2007.

Diwygio

2. Mae Gorchymyn y Tafod Glas (Cymru) 2003 wedi ei ddiwygio yn unol â'r Atodlen.

(**1**) 1972, p.68.
(**2**) OJ L 130, 24.5.2005, t.22, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn 2007/28/EC, OJ L8, 13.1.2007, t.51.
(**3**) Mewnosodwyd paragraff 1A gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p.51).
(**4**) 1981, p.22.
(**5**) Trosglwyddwyd swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672 ac O.S. 2004/3044. Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r swyddogaethau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

Rhodri Morgan AC/AM
Prif Weinidog Cymru, un o Weinidogion Cymru

18 Hydref 2007

YR ATODLEN Erthygl 2

DIWYGIO GORCHYMYN Y TAFOD GLAS (CYMRU) 2003

1. Yn erthygl 2 o'r diffiniad o "Prif Swyddog Milfeddygol" ("*Chief Veterinary Officer*") yn lle'r geiriau "Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig" rhodder y geiriau "a benodir gan Weinidogion Cymru".

2. Hepgorer erthygl 8(2)(c)

3. Yn is-baragraff 9(1)(ch) yn lle "." ar ddiwedd yr is-baragraff rhodder ";" a mewnosoder is-baragraff newydd (d) fel a ganlyn—

"(d) ei gwneud yn ofynnol i gigydda unrhyw anifail sydd wedi ei effeithio gan y clefyd neu unrhyw anifail y mae'n amau ei fod wedi ei effeithio gan y clefyd neu ei fod wedi bod yn agored i gael ei heintio gan y clefyd."

4. Yn lle erthyglau 10, 11 a 12 rhodder—

"**Mesurau pan gaiff y clefyd ei gadarnhau**

10.—(1) Os bydd y Prif Swyddog Meddygol yn cadarnhau bod y tafod glas ar dir ac adeiladau yng Nghymru, rhaid i Weinidogion Cymru ddatgan bod ardal yn barth rheolaeth.

(2) Rhaid i barth rheolaeth a ddatgenir o dan baragraff (1)—

(a) gael ei ganoli ar y man brigo; a

(b) yn ddarostyngedig i baragraffau (3) a (4), fod â radiws o 20 cilometr.

(3) Pan fo'r erthygl hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddatgan parth rheolaeth a phan fo ardal y parth hwnnw yn cynnwys tir yn Lloegr, rhaid iddynt ddatgan parth o'r rhan honno o'r ardal ag sydd yng Nghymru.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru estyn neu leihau ardal parth rheolaeth gan roi sylw i'r ffactorau—

(a) epidemiolegol;

(b) daearyddol;

(c) ecolegol; neu

(ch) meteorolegol,

sydd yn eu barn hwy yn berthnasol.

(5) Ni chaiff neb symud anifail i dir ac adeiladau neu o dir ac adeiladau mewn parth rheolaeth, ac eithrio yn unol â thrwydded a roddir gan arolygydd.

(6) Ni chaiff arolygydd ond rhoi trwydded o dan baragraff (5) mewn perthynas â symudiad a ganiateir o dan Benderfyniad y Comisiwn.

(7) Rhaid i delerau ac amodau'r drwydded honno fod gyfryw ag i sicrhau bod y symudiad yn cael ei wneud yn unol â Phenderfyniad y Comisiwn.

(8) Yn yr erthygl hon—

(a) ystyr "Penderfyniad y Comisiwn" ("*the Commission Decision*") yw Penderfyniad y Comisiwn 2005/393/EC ar barthau gwarchod a gwyliadwriaeth mewn perthynas â'r tafod glas ac amodau sy'n gymwys i symudiadau o'r parthau hyn neu drwyddynt, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd; a

(b) ystyr "y man brigo" ("the breakout point") yw'r rhan o'r tir a'r adeiladau sydd wedi ei heintio o le mae Gweinidogion Cymru o'r farn y dylid mesur y parth rheolaeth.